# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# VTCT Diploma mewn Gwallt a Harddwch Lefel 1



**Yn gryno**

Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â thrin gwallt a therapi harddwch, gan eich caniatáu i ddewis eich llwybr penodol pan fyddwch yn symud ymlaen i'r lefel nesaf.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

... ydych yn greadigol

... oes gennych ddiddordeb brwd mewn gwallt a harddwch

... ydych yn ansicr pa gwrs sy'n iawn i chi

**Cynnwys y cwrs**

Ar y cwrs hwn, byddwch yn dysgu am y canlynol:

Siampw a chyflyru

Lliw dros dro
Plethu a steilio gwallt merched
Gofal croen
Manicure sylfaenol
Colur sylfaenol a cholur ffotograffig
Paentio wyneb
Celf ewinedd

Darperir y cwrs drwy:

Ddosbarthiadau theori
Gweithdai ymarferol
Amgylcheddau salon go iawn yn y coleg
Arddangosiadau colur a siaradwyr gwadd o'r diwydiant
Ymarferion chwarae rôl
Gwaith grwp
Lleoliadau gwaith
Teithiau ac ymweliadau

Asesiad

Byddwch yn cael eich asesu drwy asesiadau ymarferol, aseiniadau, prosiectau a phrofion amlddewis ar-lein yn ymdrin â'r wybodaeth greiddiol.

Pan fyddwch yn cwblhau'r cwrs, byddwch yn cyflawni:

Diploma Lefel 1 mewn Gwallt a Harddwch
Cymwysterau cynorthwyol priodol er mwyn ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant
Gweithgareddau Sgiliau
Mathemateg a Saesneg
Sgiliau Cyfoethogi Creadigol (gweithgareddau ac arddangosiadau cymunedol)

Wedi i chi gwblhau'r cwrs, gallwch fynd ymlaen i Ddiploma Lefel 1 mewn Trin Gwallt, Diploma Lefel 2 mewn Therapi Harddwch neu Ddiploma Lefel 2 mewn Gwallt a Cholur (yn dibynnu ar y graddau a gafwyd yn y cwrs cyfun).

**Gofynion Mynediad**

Bydd angen isafswm o 3 chymhwyster TGAU (gradd G neu uwch) gan gynnwys

Mathemateg/Rhifedd a Saesneg/Cymraeg iaith gyntaf neu gymhwyster Lefel Mynediad perthnasol. Caiff ymgeiswyr nad ydynt yn meddu ar isafswm y cymwysterau TGAU eu hystyried yn seiliedig ar brofiad blaenorol neu gymwysterau eraill.

Bydd angen hunan-gymhelliant, bod yn weithiwr caled, meddu ar bersonoliaeth gyfeillgar a lefel uchel o ymgyflwyniad personol.

Mae presenoldeb a phrydlondeb yn brif ofyniad ar gyfer y cwrs hwn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Gwisg:

Rhaid gwisgo tiwnig gyda throwsus ac esgidiau duon mewn salonau
Gwallt wedi'i glymu'n ôl yn daclus oddi wrth yr wyneb
Ni ddylid gwisgo estyniadau ewinedd na farnais ewinedd
Dim tlysau na gemwaith - caniateir gwisgo modrwy briodas yn unig

Fel amod o’ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Y gost am hyn yw tua £166, yn amodol ar adolygiad/cynnydd pris chwyddiant.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu’r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd.  Y pris ar gyfer 2024/2025 yw £45, yn amodol ar adolygiad/cynnydd pris chwyddiant

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.